OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 1132

# Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014

## RHAN 3

## CATEGORÏAU O LYWODRAETHWYR

**Llywodraethwyr sefydledig**

**20.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "llywodraethwr sefydledig" ("*foundation governor*") yw person a benodir i fod yn aelod o gorff llywodraethu ffederasiwn mewn cysylltiad ag ysgol ffederal benodol, ac eithrio gan yr awdurdod lleol ac—

(i) pan fo'r ffederasiwn yn cynnwys ysgol ffederal sydd â chymeriad crefyddol penodol(**1**), a benodir at y diben o sicrhau y diogelir ac y datblygir y cymeriad hwnnw yn yr ysgol ffederal honno;

(ii) pan fo'r ffederasiwn yn cynnwys ysgol ffederal sydd ag ymddiriedolaeth yn gysylltiedig â hi, a benodir at y diben o sicrhau y cynhelir yr ysgol ffederal yn unol â'r ymddiriedolaeth honno; neu

(iii) pan fo'r ffederasiwn yn cynnwys ysgol nad oes iddi gymeriad crefyddol nac ymddiriedolaeth, a benodir yn llywodraethwr sefydledig y ffederasiwn gan berson a enwyd yn flaenorol yn offeryn llywodraethu'r ysgol ffederal fel un sydd â phŵer i benodi llywodraethwyr sefydledig;

(b) ystyr "llywodraethwr sefydledig ex officio" ("*ex officio foundation governor*") yw llywodraethwr sefydledig sydd â'r hawl i fod yn llywodraethwr sefydledig yn rhinwedd swydd a ddelir gan y person hwnnw sy'n rhoi'r hawl honno;

(c) ystyr "dirprwy-lywodraethwr" ("*substitute governor*") yw llywodraethwr sefydledig a benodir i weithredu yn lle llywodraethwr sefydledig ex officio—

(i) sy'n anfodlon neu'n analluog i weithredu fel llywodraethwr;

(ii) a ddiswyddwyd o fod yn llywodraethwr o dan reoliad 38(2); neu

(iii) pan fo'r swydd y mae swydd llywodraethwr o'r fath yn deillio ohoni yn wag.

(2) Anghymhwysir llywodraethwr sefydledig ex officio rhag parhau i ddal swydd fel llywodraethwr o'r fath pan fo'n peidio â dal y swydd y mae swydd y person hwnnw fel llywodraethwr yn deillio ohoni.

(**1**) Fel y dynodir drwy Orchymyn Gweinidogion Cymru o dan adran 69(3) o Ddeddf 1998.